OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 25 (Cy. 8)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Cwmbrân, Torfaen i Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *15 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.**Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Cwmbrân, Torfaen i Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ionawr 2024.

### Interpretation

**2.**Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 15 Ionawr 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

---

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**6.**Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**7.**Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**8.**Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 a yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.**—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.**Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Ionawr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 15 metr

i'r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd Little Mill â'r A472, gan gynnwys y gerbytffordd tua'r gogledd a'r gerbytffordd tua'r de yn ogystal â cherbytffyrdd cylchredol Cylchfan Court Farm a Chylchfan Mamheilad.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd ag ochr ogleddol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cwmbrân hyd at bwynt 1000 metr i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd ag ochr ogleddol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Court Farm.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 1000 metr i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad.

**ATODLEN 4**
**Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd ag ochr ogleddol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Court Farm.